

TROSEDDEG

Amser - 1.5 awr

Atebwch DRI chwestiwn

1. A ellid dweud bod y gyfundrefn garchardai yng Nghymru a Lloegr mewn cyflwr cyson argyfyngus? Trafodwch.
2. Pam y mae pobl dduon a grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi'u gorgynrychioli'n anghyfartal yn ystadegau stopio a chwilio yr heddlu yng Nghymru a Lloegr? Yn eich ateb, ystyriwch ddulliau y credwch y gellid eu defnyddio i ddatrys y problemau sy'n codi yn sgil yr anghyfartaledd hwn.
3. Rhowch ddisgrifiad ac esboniad o'r ffordd y gallai portreadau'r cyfryngau o drosedd a chyfiawnder troseddol ddylanwadu ar ganfyddiad a dealltwriaeth y cyhoedd o drosedd.
4. Trafodwch pa mor ddefnyddiol yw ystadegau swyddogol ynglŷn â throsteddu ar gyfer rhoi darlun cywir o fathau a niferoedd y troseddau a gyflawnir mewn cymdeithas.
5. Ystyriwch fanteision a chyfyngiadau defnyddio cyfiawnder adferol a chyfyngu wrth ddatrys y niwed sy'n deillio o droseddau.
6. Fel y dywedodd Hirschi a Gottfredson (1983: 552) 'un o ffeithiau moel troseddeg' yw bod bron pob ymddygiad troseddol a thramgwyddus yn dod i uchafbwynt tua diwedd cyfnod llencyndod ac yn gostegu ar ôl hynny. Pa eglurhad a ellir ei roi am y ffenomenon hon?
7. Gan gyfeirio at y berthynas rhwng rhywedd, trosedd a chyfiawnder troseddol, ystyriwch pam mai dynion ac nid menywod sy'n cyflawni'r mwyafrif o droseddau a gofnodir.